Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth HTW – Canllaw ar Adolygiad Arbenigwyr HTW

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan http://www.healthtechnology.wales/about/, gyda gwybodaeth fanylach am ein prosesau yn ein Llawlyfr Arfarnu.

1. Ynghylch HTW

Mae Technoleg Iechyd Cymru yn sefydliad asesu technolegau iechyd sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth, ond sydd yn annibynnol ohono hefyd. Rydym yn asesu technolegau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ddim yn feddyginiaethau a modelau gofal a chymorth, ac yn rhoi arweiniad annibynnol, awdurdodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac arbenigedd i ddarparwyr iechyd a gofal yng Nghymru. Mae ein gwaith yn cefnogi penderfyniadau ar gomisiynau gan GIG Cymru ac o fewn y gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac yn cefnogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gall unrhyw un awgrymu pwnc i'w arfarnu.

2. Ein Proses Arfarnu

Mae ein hymchwilwyr yn cynhyrchu Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth ar gyfer pob arfarniad. Nod yr adroddiad ydy crynhoi'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd costau pwnc. Mae'r adroddiad yn cynnwys agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r posibilrwydd o'i weithredu hefyd, fel ystyriaethau logistaidd neu faterion sefydliadol, a safbwyntiau cleifion, pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol a chefnogaeth, a'r cyhoedd os ydynt yn berthnasol.

Mae ein ffordd o arfarnu yn seiliedig ar fodel adolygu cyflym. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n dilyn dull mwy syml a chyflym o chwilio am dystiolaeth a'i chrynhoi, o'i gymharu ag adolygiad systematig llawn. Fel gyda mathau eraill o adolygu tystiolaeth, rydym yn dewis tystiolaeth i'w gynnwys yn seiliedig ar brotocol wedi'i ddiffinio ymlaen llaw y cytunir arno gan ein Grŵp Asesu. Ein nod yw canolbwyntio ar y dystiolaeth sydd cael ei hystyried yn fwyaf pwysig a pherthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Gall hyn olygu bod ffocws ar dystiolaeth eilaidd a/neu astudiaethau sy'n fwy diweddar, o ansawdd uwch, neu sy'n fwy perthnasol i Gymru. Mae'n golygu hefyd efallai, na fyddwn yn trafod pob canlyniad posibl, ond yn canolbwyntio ar y rhai a ystyrir fwyaf pwysig a pherthnasol i wneud penderfyniadau.

3. Adolygiad Arbenigwyr

Fel rhan o'n proses arfarnu, rydym yn gwahodd arbenigwyr mewn meysydd pwnc penodol i gymryd rhan mewn adolygu'r gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi drafft o'n Hadroddiad

Arfarnu Tystiolaeth ar y pwnc hwn. Rydym yn gofyn i adolygwyr ddadansoddi'r ddogfen hon a rhoi sylwadau, naill ai ar faterion/ansicrwydd penodol y mae angen help ar ein tîm ymchwil i'w hegluro, neu ar gynnwys cyffredinol yr adroddiad a'i gadernid – rydym yn darparu dogfen ymateb gyda rhywfaint o gwestiynau allweddol i gynorthwyo gyda hyn.

Sylwch, ar y pwynt pan fydd arbenigwyr yn cymryd rhan mewn adolygiad, y bydd ein Hadroddiad Arfarnu Tystiolaeth ar ffurf drafft cynnar. Rydym yn aml yn defnyddio arbenigwyr i adolygu i fynd i'r afael â bylchau amrywiol yn ein dealltwriaeth o'r pwnc a'r dystiolaeth, ac ni fydd y casgliadau cyffredinol yn cael eu cwblhau, ac efallai y byddant yn newid.

4. Cymhwysedd i gymryd rhan

I gymryd rhan, dylech:

- gael gwybodaeth neu brofiad o'r cyflwr, ac/neu am y dechnoleg sydd yn cael ei gwerthuso.
- gytuno i ddatgan unrhyw ddiddordebau sydd gennych yn ysgrifenedig ac mewn cyfarfodydd pwyllgor, os byddwch yn mynychu (gweler isod).
- gytuno i gael eich rhwymo gan delerau ac amodau cytundeb cyfrinachedd HTW.
- gytuno i'ch enw a'ch manylion cyswllt ymddangos yn y dogfennau adolygu.

Yn ogystal, os ydych yn arbenigwr ar iechyd a/neu ofal cymdeithasol, dylech:

- fod yn gweithio ym maes clinigol gweithredol a/neu fod ag arbenigedd ym maes pwnc y gwerthusiad
- beidio â bod yn destun ymchwiliad gan reoleiddiwr eich proffesiwn neu gan unrhyw gorff proffesiynol arall, peidio â chael unrhyw gyfyngiadau dros dro wedi eu gosod ar eich ymarfer, neu beidio â bod wedi cael eich tynnu oddi ar y gofrestr feddygol neu broffesiynol arall.
- beidio â bod yn destun ymchwiliad i gamymddwyn proffesiynol neu fod wedi cael eich dyfarnu'n euog o dorri safonau proffesiynol priodol gan y corff proffesiynol perthnasol.

Gallwch barhau i gymryd rhan mewn adolygiad os ydych chi wedi gweithredu fel arbenigwr clinigol i'r gwneuthurwr, cyhyd â bod hyn yn cael ei ddatgan ar ffurf Datganiad o Ddiddordeb ac mewn unrhyw gyfarfodydd sydd yn cael eu mynychu gennych. Os ydych chi'n gweithio mewn swydd swyddogol (h.y. mewn swydd â thâl, fel cyfarwyddwr di-dâl neu fel aelod o bwyllgor cynghori sefydlog) gyda'r cwmni neu unrhyw gwmnïau technoleg cymharu perthnasol, gallwch ddal i gymryd rhan, ond fel arbenigwr yn y diwydiant.

5. Cyfrinachedd a Datganiadau o Ddiddordeb

Bydd yn rhaid i bawb sy'n cymryd rhan fel arbenigwr mewn adolygiad HTW gwblhau ffurflen Datganiad o Ddiddordeb a Chyfrinachedd ar gyfer pob pwnc maen nhw'n ei adolygu. Mae angen gwneud hyn cyn bod yr adroddiad drafft ar gael i'w adolygu.

Dim ond y rhai sydd wedi cwblhau'r gwaith papur hwn fydd yn cael gweld yr adroddiad drafft, ac ni ddylai adolygwyr rannu'r cynnwys gydag unrhyw bartïon eraill, hyd yn oed ar ôl cyhoeddi canlyniad y canllaw (bydd yr Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan HTW). Os ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw un arall y dylid gofyn iddynt adolygu'r Adroddiad Arfarnu Technoleg drafft, cysylltwch â ni, a byddwn yn cysylltu â nhw gyda gwahoddiad a'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb a Chyfrinachedd.

6. Ymateb i sylwadau

Bydd cyfraniadau gan arbenigwyr sydd yn cymryd rhan mewn adolygiad yn cael eu hystyried gan Grŵp Asesu HTW a Phanel Arfarnu HTW. Ni fydd gan yr arbenigwyr hyn unrhyw rôl mewn rheoli'r gwaith o ysgrifennu neu olygu'r Adroddiad Arfarnu Tystiolaeth, ac mae HTW yn cadw'r hawl i wneud newidiadau sylweddol i'r cyhoeddiad terfynol ar ôl ystyried sylwadau a dderbynnir. Y barnau fydd yn cael eu mynegi yn y cyhoeddiad terfynol fydd rhai HTW.

Sylwch y bydd y sylwadau a dderbynnir ac unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar gael i'r cyhoedd trwy wefan HTW, a bydd ymatebion i bob sylw yn cael ei nodi. Bydd arbenigwyr sydd yn cymryd rhan mewn adolygiad yn cael eu henwi yn yr adran cydnabyddiaethau o'r Adroddiad Arfarnu Technoleg.